Ffocws ar TGAU

CYFRES YR HAF 2018

Asesiadau haenog

Caiff cymwysterau TGAU eu hasesu mewn gwahanol ffyrdd. Mewn cymwysterau TGAU haenog, mae myfyrwyr yn sefyll papurau arholiad gwahanol gan ddibynnu ar ba raddau y maent yn anelu atynt. Mewn cymwysterau TGAU nad ydynt yn haenog, dim ond un papur arholiad sydd i bob myfyriwr, ni waeth pa radd y mae'n anelu ati.

Rydym o'r farn na ddylai cymwysterau TGAU yng Nghymru gynnwys asesiadau haenog oni bai bod eu hangen er mwyn sicrhau bod arholiadau yn hygyrch ac yn hydrin i'r myfyrwyr sy'n eu sefyll.

Mewn llawer o bynciau, megis Cymraeg, Saesneg neu Ddaearyddiaeth, gellir asesu'r cynnwys gan ddefnyddio cwestiynau penagored yn bennaf sy'n hygyrch i'r garfan gyfan o fyfyrwyr sy'n sefyll asesiad. Mae'r marciau y bydd myfyriwr yn eu cael yn dibynnu ar ansawdd ei ateb. Ar gyfer y pynciau hyn, nid oes angen papurau arholiad haenog.

Defnyddir system haenog ar gyfer pynciau lle y caiff y cynnwys ei asesu drwy gyfres o gwestiynau sy'n amrywio o ran lefel anhawster.

Er y bydd pob myfyriwr yn gallu ateb y cwestiynau symlach, wrth i'r cwestiynau ddod yn fwy anodd, bydd llai o fyfyrwyr yn gallu eu hateb. Mae hyn yn wir ar gyfer pynciau megis mathemateg a gwyddoniaeth.

Er y byddai modd gosod papur sy'n cynnwys digon o gwestiynau o amrywiol lefelau anhawster i asesu'r ystod cyrhaeddiad llawn, byddai hyn yn arwain at bapurau arholiad llawer hirach a phrofiadau llai cadarnhaol o arholiadau i fyfyrwyr.

Mae'r defnydd mwy effeithiol hwn o amser arholi yn golygu y gellir mesur gallu a pherfformiad ymgeisydd yn fwy cywir.

Yn ymarferol, mae system haenog yn golygu mai dim ond is-set o raddau a gaiff ei thargedu gan bob papur arholiad. Mae'r haen y caiff myfyriwr ei gofrestru ar ei chyfer yn dibynnu ar ba radd y mae'n anelu ati.

Mae'r rhan fwyaf o gymwysterau haenog yn cynnwys dwy haen: sylfaenol ac uwch. Mae graddau C a D ar gael ar yr haen uwch a'r haen is.

Uwch	A*	A	B	C	D			
Canolradd				C	D	E	F	G

Mae gan gymwysterau TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd dair haen mynediad: Sylfaenol, Canolradd ac Uwch. Mae'r graddau sydd ar gael ar bob haen fel a ganlyn.

Uwch	A*	A	B	C				
Canolradd			B	C	D	E		
Sylfaenol					D	E	F	G

Am mai dim ond is-set o'r graddau y mae papurau arholiad haenog yn ei thargedu, mae'n bwysig bod yn ofalus wrth ystyried ffiniau graddau. Er enghraifft, mewn TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd ar yr haen uwch, caiff tua chwarter y cwestiynau eu targedu at bob gradd A*, A, B a C. Dyna pam bod ffiniau graddau ar gyfer gradd C ar bapurau haen uwch yn is nag ar gyfer papurau haen ganolradd neu sylfaenol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein herthygl ar **bennu ffiniau graddau.**

Rhagor o wybodaeth: www.cymwysteraucymru.org E: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
Ff: 01633 373 222 @cymwysterau_cym